# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Polisi ar Bapur Cynaliadwy 2014-15

## Gweithio'n Gynaliadwy

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad bolisi amgylcheddol ar waith ers 2006, i gydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol mwyaf arwyddocaol ar yr amgylchedd gan ein sefydliad.

Rydym yn cydnabod bod papur yn adnodd craidd sy'n angenrheidiol er mwyn inni gyflawni ein gweithgareddau, a chaiff ei greu o adnoddau naturiol prin sy'n achosi ôl troed ecolegol mawr.

I gyd-fynd â'n gwerthoedd strategol, ein nod yw lleihau i'r eithaf effaith amgylcheddol y papur rydym yn ei ddefnyddio, a hynny drwy brynu a defnyddio cynhyrchion papur yn ddoeth o ffynonellau sy'n gyfreithlon a chynaliadwy.

Rydym wedi ymrwymo i ailgylchu'r papur a ddefnyddiwn, ond gwerthfawrogwn na ellir mynd i'r afael ag effeithiau cylch bywyd llawn defnyddio papur drwy gyfrwng y polisi hwn yn unig, a dylid ei ystyried ar y cyd â pholisïau a chanllawiau cysylltiedig eraill gan y Cynulliad, fel sydd wedi'u hamlinellu isod.

– Y Polisi Amgylcheddol

– Canllawiau ar ddefnyddio llai o bapur

## Amcanion

Yn unol â'n hymrwymiad i ddefnyddio papur yn gynaliadwy, byddwn yn:

– Sicrhau bod yr holl bapur copïo a'r cyhoeddiadau mewnol yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu 100 y cant, neu bapur o ffynonellau wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (**Forest Stewardship Council, (FSC**) neu'r Rhaglen er Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (**Programme for Endorsement of Forest Certification (PEFC**).

– Sicrhau bod unrhyw ofynion argraffu sy'n cael eu comisiynu'n allanol yn cael eu hargraffu gan ddefnyddio o leiaf 50 y cant o bapur wedi ei ailgylchu oddi wrth gynhyrchwyr sydd ag ardystiad cyfredol Cadwyn Warchodaeth gan y FSC neu'r PEFC, Er enghraifft Ffynonellau Cymysg FSC.

– Sicrhau, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, pan na ellir defnyddio papur wedi ei ailgylchu neu bapur o ffynonellau cymysg, rhaid i'r cynnyrch fod wedi ei ardystio gan FSC neu PEFC gyda'r ardystiad Cadwyn Warchodaeth perthnasol i brofi bod y papur wedi dod o ffynonellau cyfreithlon a chynaliadwy.

– Lleihau ôl-troed amgylcheddol ein defnydd o bapur drwy argraffu cynifer â phosibl o gyhoeddiadau mewnol drwy ein huned gopïo fewnol, yn enwedig o ran gwaith argraffu mawr iawn.

– Nodi a gweithredu cyfleoedd i annog pawb i ddefnyddio papur mewn ffordd gyfrifol, a phan fo'n briodol, storio ffeiliau a'u cyhoeddi'n electronig, yn hytrach nag ar bapur.

## Caffael Papur

– Bydd caffael a chyflenwi papur at ddibenion argraffu'r Uned Gopïo ac ar gyfer llungopiwyr drwy'r adeilad i gyd yn cael ei drefnu gan Uned Argraffu'r Cynulliad.

– Rhaid i'r holl bapur sy'n cael ei ddefnyddio mewn argraffwyr penbwrdd mewn swyddfeydd gael ei brynu gan Swyddogion Offer Swyddfa dynodedig, a rhaid i'r papur gydymffurfio â manylebau papur gofynnol fel y nodwyd.

Bydd y polisi hwn yn gymwys i'r holl bapur sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cynulliad, p'un a gaiff ei ddarparu'n fewnol drwy'r Uned Gopïo neu ei bennu ar gyfer argraffwyr a chyflenwyr allanol. Mae'r polisi'n gymwys i swyddfeydd etholaethol Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad â'r math o bapur a'i waredu mewn ffordd gyfrifol, ond mae trefniadau prynu ar wahân yn gymwys yn benodol i ofynion unigol. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni ei ymrwymiad i'r polisi hwn.

Caiff y datganiad polisi hwn yn ei adolygu bob blwyddyn a'i ddarparu i holl staff Comisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad drwy ein mewnrwyd, ac i bobl eraill sydd â diddordeb drwy ein gwefan. Bydd y datganiad yn rhan o gontract y cyflenwyr sy'n defnyddio ein safle, a bydd ar gael i unrhyw un ar gais.



**Peter Black AC/AM**

Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am Gynaladwyedd / Assembly Commissioner for the Sustainable Assembly

**Llofnodwyd:**



**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad/Chief Executive and Clerk to the Assembly

**Llofnodwyd:**

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Adolygir: Mai 2015